IONAWR A CHWEFROR 2025


YSGOL PENNAL

# LLEISIAU PENNAL



## SESIWN SYLWEBU GYDA MEILIR EMRYS

Prynhawn Dydd Gwener 17eg o Ionawr aeth Blwyddyn 6 i Ysgol Dyffryn Dulas i gael sesiwn gyda Meilir Emrys. Cafodd y disgyblion baratoi eu sylwebaethau eu hunain ar ol gwrando ar Meilir Emrys yn sgwrsio am ei waith.



## DIWRNOD RHIF NSPCC

Roedd hi'n Ddiwrnod Rhif NSPCC ar Ddydd Gwener, 7fed o Chwefror. Cymerodd disgyblion yr ysgol ran yn y diwrnod drwy wisgo dilledyn oedd yn cynnwys rhifau, patrwm neu smotiau. Yn ystod y dydd, roedd athrawon yr ysgol wedi paratoi amrywiaeth o weithgareddau rhif.





## THEMA



Pethau fel Santes Dwynwen, rhewi, a'r tywydd ydi ein thema ni wedi bod ar ôl dod yn ôl i'r Ysgol ar ôl y Nadolig. Rydym ni wedi bod yn gwneud llawer iawn o Wyddoniaeth ac yn dysgu am amsugno. 'Da ni wedi dysgu fod papur cegin yn amsugno dwr. 'Da ni wedi gweld dy fod yn gallu gweld drwy'r papur cegin ar ôl iddo amsugno dwr. Rydym ni yn gwybod rwan fod hyn yn digwydd achos fod y dŵr yn mynd i le yr aer yn y papur. Wedyn mae'r golau yn cael ei wasgaru yn wahanol. Ar ôl dysgu am amsugno, rydym ni eisiau gwneud prawf teg i ddarganfod pa ddefnydd a phapur ydi'r gorau i'n helpu ni i dacluso'r gornel gymysgu, ardal y sinc a'r ardal beintio! Mae yna LOT o baent a dŵr yna weithiau! Gweithio yn daclus a thacluso ar ôl i gorffen ydi targed y dosbarth!
Ysgrifennwyd gan Amy, Robin, Arrow a Jack.

## DIOGELWCH Y WE

Rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar ddiogelwch y we yn ddiweddar.
Rydym ni yn dal ati i ddysgu sut mae bod yn hapus a diogel ar y we.
Mae ci o'r enw Bydi Bydd Yn Ofalus Ar Y We yn byw yn Ysgol Pennal.
Mae Bydi wedi bod yn ein atgoffa ni o gân diogelwch y we. App ChatterPix 'da ni wedi ei ddefnyddio i wneud hysbyseb i ddweud wrth ffrindiau sut mae bod yn ddiogel ar yr ipad.



Gofyn i oedolyn. Gofyn i oedolyn.
Ga I help? Ga I help?
Gofalus ar yr ipad! Gofalus ar yr ipad!
Wff! Wff! Wff! Wff! Wff! Wff!
Paid clicio 'download', paid clicio 'videos'
heb ofyn i mi, heb ofyn i mi!
Dim ond siarad efo ffrindiau, siarad efo ffrindiau.
Wff! Wff! Wff! Wff! Wff! Wff!
Ysgrifennwyd gan Riley, Harry a Zephyr.



## GWERSI NOFIO A GYMNASTEG

Ers cychwyn y tymor, mae blwyddyn 2-6 Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal wedi bod i nofio a sesiynau gymnasteg yn Ganolfan Hamdden Machynlleth pob Dydd Mercher. Rydym wedi mwynhau chwarae gemau a chreu dilyniannau siâp yn ein sesiynau gymnasteg. Rydym wrth ein boddau gyda bore Dydd Mercher wrth i ni gael gweithio ein cyrff yn galed a chael lawer iawn o hwyl wrth wneud!
Ysgrifennwyd gan Tau, Tomos, Iestyn a Bleddyn

**IONAWR A CHWEFROR 2025**

**YSGOL PENNAL**



## SANTES DWYNWEN

Cawsom ni wneud brechdan calon cariadon Cymru i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen. Roedd pawb yn yr ysgol wedi mwynhau'r stori ar raglen Mabinogi-ogi. Roedd y stori yn ddoniol! Wrth wneud y frechdan, roedden ni yn dysgu mai ffracsiwn ydy rhan o, hanner, un rhan o ddau, torri yn ei hanner a beth mae cymesur yn ei feddwl.
Ysgrifennwyd gan Silyn Llewyn, Emilia ac Ayda.

## TAITH YR IAITH

Aeth plant blwyddyn 6 i Ysgol Uwchradd Tywyn i weld sioe un dyn 'Taith yr Iaith' gyda'r actor enwog Llion Williams prynhawn dydd Gwener olaf mis Ionawr. Dysgon am hanes ein hiaith, o'i datblygiad o'r iaith Brythoneg, trwy Ddeddf Uno 1536, y drwg enwog Welsh Not i ymdrechion diweddar i'w diogelu. Aeth dwy o Ysgol Pennal ar y llwyfan yn chwifio baneri Cymdeithas yr Iaith. Wnaeth pawb fwynhau'r perfformiad a dysgu - a chwerthin - llawer. Daethon Blwyddyn 6 nol i'r ysgol efo balchder newydd yn eu gallu i siarad yr iaith.



## SESIWN SAMBA A RHYTHM

Ar Ddydd Iau'r 30ain o Ionawr a Dydd Iau'r 6ed o Chwefror daeth Gethin Thomas i wneud drymio efo ni. Roedd o'n gerddorol a thalentog iawn ac rydym wedi dysgu am rythm mewn ffordd hwyl! Roedd ganddo pob math o ddrymiau a chawsom ni ddefnyddio bwcedi er mwyn ymarfer. Rydym wedi chwarae'r Samba ac wedi mwynhau yn arw, diolch Mr T! Ysgrifennwyd gan Nia, Jack, Pearl, Talitiu a Leafin



# YSGOL PENNAL

## TROSGLWYDDO UWCHRADD

Yn dilyn llwyddiant y ddau ddiwrnod trosglwyddo hyd yma aeth disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol i ddiwrnod trosglwyddo arall ym mis Chwefror yn Ysgol Bro Hyddgen. Cynhaliwyd Gweithdy Technoleg a TGCh dydd Iau 6ed o Chwefror. Cafodd y disgyblion brofiad cyffrous yn adrannau Technoleg a TGCh Ysgol Bro Hyddgen. Roedd y diwrnod yma yn gyfle gwych i'r disgyblion ymgyfarwyddo â'r ysgol, yr athrawon a disgyblion eraill yr un flwyddyn. Roedd y gweithdy yn cynnwys elfennau gwahanol sef rhaglennu robot i wneud amrywiaeth o wahanol bethau, dylunio wyneb i'r robot ac yn ei gynhyrchu gan ddefnyddio'r torrwr laser a'r peiriant CAMM1 (sticeri)

## GWEITHDY GYDA MANON STEFFAN ROS



Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i weithio gyda disgyblion Ysgol Dyffryn Dulas bore dydd Gwener, 7fed o Chwefror. Daeth Manon Steffan Ros i gynnal gweithdy ysgrifennu stori gyda'r disgyblion.

## GWEITHDY SBECTRWM





Diolch yn fawr iawn i Natalie a Tedi Spectrwm am siarad efo ni dros TEAMS i'n dysgu ni beth mae 'perthynas' yn ei feddwl. Gwnaethom ni gadwyn berthynas i'n helpu ni i ddeall beth ydi 'perthynas' neu 'bond'. Rydym ni wedi ysgrifennu geiriau fel mam, dad, nain, taid, staff Ysgol Pennal, brawd, chwaer, ffrindiau, ci, cath ar ein cadwyn berthynas ni. 'Da ni wedi dysgu geiriau 'perthynas iach' fel hapus, neis, saff, diogel a cymffi, a geiriau perthynas sydd 'ddim yn iach' fel caled, oer, brifo, trist, oer, torri calon, pigo. Mae Natalie a Tedi Sbectrwm wedi ein helpu i greu llaw gymorth hefyd i'n helpu ni i gofio enwau'r bobl sy'n gallu ein helpu pan dydy perthynas ddim yn iach, ein enw llawn a'n cyfeiriad, pan ydym ni'n barod.
Fel ac a ddwedwyd gan Amy, Ayda, Silyn, Jack a Riley.

# PROSIECT TIRWEDD FRANWEN



Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn mynd i weithdai yn Ysgol Penybryn gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y dalgylch. Mae hyn yn rhan o Brosiect 'Tirwedd' dan arweiniad Cwmni'r Fran Wen ynghyd ag artistiaid dawns a symud, ac artistiaid celf gweledol. Mae'r Prosiect yma wedi ei drefnu yn dilyn grant llwyddiannus 'Grant Trochi Hwyr'  i gefnogi dysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.  Mae'r gweithdai hyn wedi ei anelu i ddathlu Cymreictod a dwyieithrwydd ein plant.



# GORYMDAITH TIRWEDD



Dydd Gwener olaf cyn hanner tymor, bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn rhan o'r orymdaith i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd yr orymdaith ar hyd promenad Tywyn.
Roedd yr orymdaith yn ddiweddglo i brosiect Tirwedd lle mae'r ysgolion cynradd y dalgylch wedi bod yn cydweithio. Roedd croeso i bawb fod yn rhan o'r orymdaith a gwylio'r gwaith mae'r plant wedi ei baratoi.
Cafodd y disgyblion ddisgo a dathliad yn y prynhawn yn dilyn yr Orymdaith.



## IONAWR A CHWEFROR 2025

## YSGOL PENNAL

# DARLLEN GYDA FFRIND

Rydym ni plant mawr wedi penderfynu helpu’r plant bach gyda’u darllen unwaith yr wythnos. Mae hyn yn gyfle i ni helpu nhw gyda’u darllen, gwneud ffrindiau a helpu nhw gwella eu siarad Cymraeg. Mae bod yn ffeind yn bwysig, ac rydym yn hoffi cymryd amser i helpu ein gilydd.

Ysgrifennwyd gan Melys, Harry a Curig.





# PLASTIC FREE ABERDYFI

Prynhawn dydd Llun, 17eg o Chwefror, daeth Phil o Plastic Free Aberdyfi i’r ysgol.
Cyflwynwyd siec o £378.81 i Phil.
Diolch yn fawr i ddisgyblion dosbarth 7-11 oed am gasglu’r arian yn ystod y sgipio noddedig yn Nhymor yr Hydref.
Bydd ‘Plastic Free Aberdyfi’ yn defnyddio’r arian ar gyfer prynu rhagor o offer casglu sbwriel a poteli dwr oes fydd yn cael ei gwerthu o amgylch siopau Aberdyfi.

